Afasic GeirfA

Mudandod dethol

Beth yw mudandod dethol?

Mae mudandod dethol yn derm a ddefnyddir pan fydd plant sy'n eithaf siaradus mewn rhai sefyllfaoedd, fel arfer gyda'u teuluoedd gartref, yn dawel yn gyson mewn sefyllfaoedd eraill, fel arfer y tu allan i'r cartref a chyda phobl sy'n llai cyfarwydd. Cyfyd y broblem yn yr ysgol fel arfer lle gellir disgrifio plant nad ydynt wedi siarad am ddau dymor neu fwy fel plant sy'n dioddef o fudandod dethol.

Nid yw hyn yn arwydd o swildod arferol neu ystyfnigrwydd; mae'n broblem seicolegol pan fydd yn ymddangos bod plant yn rhewi ac yn methu â siarad, math o ofn a phryder cymdeithasol, ynghyd â sensitifrwydd eithafol i ymateb eraill.

Mae "mudandod dethol" yn derm mwy diweddar ar gyfer "mudandod dewisol"; gellir defnyddio'r ddau derm, ond ffafrir "mudandod dethol" erbyn hyn gan y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol.

Ychydig o ffeithiau

- Mae mudandod dethol yn gyflwr cymharol anghyffredin. Mae'r amcangyfrif gorau yn awgrymu yr effeithir ar lai nag un plentyn o bob mil.
- Cofnodir mudandod dethol fel arfer rhwng tair a phump oed.
- Effeithir ar ferched ychydig yn fwy aml na bechgyn.
- Mae plant sy'n dod o gefndir dwyieithog ychydig yn fwy tebygol o ddangos arwyddion o fudandod dethol.
- Mae plant sydd â mudandod dethol yn fwy tebygol o gael anawsterau iaith a lleferydd eraill na phlant eraill.
- Mae'r mwyafrif o blant sydd â mudandod dethol o ddeallusrwydd cyffredin neu'n uwch na'r cyffredin; ond bydd rhai ohonynt yn dangos arwyddion o anawsterau dysgu cymedrol neu ddifrifol.

Beth y gellir ei wneud i helpu?

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd argymhellir cyfeirio plentyn at therapydd lleferydd ac iaith a seicolegydd. Yna gellir cynnal asesiad llawn o'r plentyn dros gyfnod o amser, gan gynnwys asesiad o ddeallusrwydd a phob maes sy'n gysylltiedig â'r mudandod. Bydd asesiad o amgyffrediad geiriol y plentyn (dealltwriaeth o iaith) fel arfer yn bosibl, a gellir asesu ei iaith fynegiannol a'i leferydd (yr hyn y byddant yn ei ddweud) yn uniongyrchol gan ddefnyddio tapiau cartref neu ei gyffelyb.

Gall triniaeth gynnwys rhaglen raddedig a gynhelir gan therapydd neu weithiwr allweddol yn yr ysgol i fynd i'r afael â'r mudandod – ymddangosodd sawl rhaglen benodol yn ddiweddar. Gall gwaith rhwng y rhiant a'r plentyn helpu, ac mae angen rhoi cymorth a chyngor i'r ysgol ac i'r rhieni.

Mae'r cyflwr yn gymhleth a bydd cynnydd yn araf. Mae sensitifrwydd eithriadol yn nodwedd sy'n ymwneud â phersonoliaeth ac er y gall plant wneud cynnydd sylweddol ar hyd y blynyddoedd mae'n debygol y byddant yn parhau i fod yn eithaf tawedog.

Cyfeiriadau

Kolvin, I a Fundudis, T (1981) – Elective mute children: psychological development and background factors yn *Journal of Child Psychology and Psychiatry* 22 (3), t.219-232

World Health Organisation (1990) – *International Classification of Diseases* (10fed argraffiad), Mudiad Iechyd y Byd, Geneva

Awgrymiadau ar gyfer deunydd darllen pellach

Johnson, M a Glassberg, A (1993) – *Breaking Down the Barriers Created by Selective Mute Children*, ar gael o: Speech and Language Therapy Department, Kent and Canterbury Hospital, Ethelbert Road, Canterbury, Kent CT1 3NG

Cline, T a Balwin, S (1994) – *Selective Mutism in Children*, Whurr

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Anawsterau iaith fynegiannol

Sefydliadau eraill a all helpu

The Association for Child Psychology and Psychiatry
70 Borough High Street, London SE1 1XF
Ffôn: 020 7403 7081

SMIRA (Selective Mutism Information and Research Association)
13 Humberstone Drive, Leicester, LE5 0RE
Ffôn: 0116 212 7411

Ysgrifennwyd gan Alison Wintgens, Pennaeth Therapi Lleferydd ac Iaith, Ymddiriedolaeth Arloesol Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, Ysbyty St George, Tooting.